



Annwyl Gwsmer

Cau Cangen Dros Dro
Swyddfa Bost Rhydyfelin
Heol Dyffryn, Pontypridd, CF37 5NR

Rydym yn ysgrifennu i roi'r newyddion trist i chi y bu farw'r postfeistr yn Swyddfa Bost Rhydyfelin yn ddiweddar. O'r herwydd, caeodd y gangen hon ddydd Mawrth 19 Rhagfyr 202. Ymddiheuraf am fod yn hwyr yn rhoi gwybod i chi.

Mae darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid yn y gymuned leol yn bwysig i ni, a byddwn yn gweithio'n galed o hyd i adfer gwasanaethau yn yr ardal cyn gynted â phosibl. Hoffwn eich sicrhau ein bod wrthi'n ystyried sut y gallwn adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig fod unrhyw wasanaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy i'r sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth ac i Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Bydd darpariaeth yn y dyfodol yn adlewyrchu nifer y cwsmeriaid a'r defnydd a wnaed o'r gwasanaeth, ac mae'n bosibl y cymerwn y cyfle i sefydlu math gwahanol o wasanaeth. Gall hyn olygu cangen leol ei natur sy'n cael ei rhedeg ochr yn ochr â siop sy'n bodoli eisoes mewn adeilad wedi ei adnewyddu, er mwyn cynnig profiad siopa mwy modern a hwylus i gwsmeriaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Byddai unrhyw newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu trafod yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posteri yn y gangen i roi gwybodaeth i gwsmeriaid.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Hoffem ymddiheuro am yr anhwylostod a allai ddigwydd oherwydd y cau dros dro. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennym unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

Santosh Samudrala

Santosh Samudrala

Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk

postofficeviews.co.uk

FREEPOST Your Comments

Canghennau eraill

Mae yna adegau o bosibl pan fydd rhaid newid oriau agor cangen.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan

www.postoffice.co.uk/branch-finder

Swyddfa Bost Y Ddraenen Wen

95 Heol Ynyslyn
Y Ddraenen Wen
Pontypridd
CF37 5AR

Yr oriau agor

Llun - Sadwrn	06:00 – 20:30
Dydd Sul	09:00 – 20:30

Gwasanaethau

Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ac eithrio Treth Cerbydau, ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a ramp â chanllawiau wrth y fynedfa.

Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 0.7 milltir o gangen Rhydyfelin, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw. Does dim gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng cangen Rhydyfelin a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn.

Swyddfa Bost Stryd Y Parc

10 Stryd y Parc
Trefforest
Pontypridd
CF37 1SN

Yr oriau agor

Llun - Sadwrn	08:00 – 19:00
Dydd Sul	09:00 – 16:00

Gwasanaethau

Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ac eithrio Treth Cerbydau, ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a gris wrth y fynedfa.

Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 1 milltir o gangen Rhydyfelin, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio am gyfnod penodol y tu allan i'r gangen. Mae yna wasanaeth bws ar gael rhwng cangen Rhydyfelin a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 350 metr i ffwrdd.

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu Braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro¹/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn.

Postofficeviews.co.uk.

Comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹Rhodddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhodddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon; Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol; Cyngorwyr Ward; Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf; elusennau dethol; Cyngor ar Bopeth Lleol; Age UK; Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.